OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 195

## Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018

*Diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol*

**Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2)**

**42.** Yn adran 19(7) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) ystyr "cartref plant" yw mangre lle y mae—

(i) gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant neu bobl ifanc; neu

(ii) gwasanaeth llety diogel yn cael ei ddarparu;

ac yn y paragraff hwn mae i "gwasanaeth cartref gofal" a "gwasanaeth llety diogel" yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2);".